NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon
The Teachers' Union

# BWLETIN

## Canllawiau i aelodau sy'n dod yn agos at ymddeol – goblygiadau dull unioni arfaethedig Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anghyfreithlon yn y Cynllun Pensiwn Athrawon

Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniadau ynghylch pensiynau'r athrawon yng Nghymru.

Mae Llywodraeth San Steffan wedi cynnig dull unioni i fynd i'r afael â'r gwahaniaethu anghyfreithlon, yn y Cynllun Pensiwn Athrawon ar gyfer Cymru a Lloegr a chynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus eraill, a chadarnhaodd y Goruchaf Lys y cynnig hwnnw. Enw arall ar y penderfyniad cyfreithiol hwn yw'r dyfarniad yn achos McCloud, ac enw arall ar ddull unioni arfaethedig Llywodraeth y DU yw'r ateb i achos McCloud

Mae rhagor o wybodaeth am ddull unioni arfaethedig Llywodraeth San Steffan ar: **https://www.nasuwt.org.uk/advice/pay-pensions/pensions/wales/mccloud-and-unlawful-discrimination-wales.html.**

Mae cyngor NASUWT ynglŷn â sut i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan ar gael yn adran 'bwletinau pensiwn' ei wefan ar: **https://www.nasuwt.org.uk/advice/pay-pensions/pensions/wales.html**.

Pwrpas y bwletin pensiwn hwn yw rhoi arweiniad i **aelodau sy'n dod yn agos at ymddeol** ynglŷn â goblygiadau'r ateb i achos McCloud. Dylid darllen y bwletin hwn ochr yn ochr â'r cyngor a gyhoeddwyd o'r blaen gan NASUWT ynglŷn â'r ateb i achos McCloud.

Mae'r ateb i achos McCloud yn berthnasol i bob athro/athrawes sy'n disgyn i gwmpas y dull unioni hwn, nid yn unig i'r athrawon hynny a gymerodd achosion cyfreithiol mewn perthynas â'r dyfarniad yn achos McCloud.

Os na fydd cynigion Llywodraeth San Steffan yn newid yn sylweddol, bydd yr ateb i achos McCloud yn rhoi cyfle i athrawon a gychwynnodd addysgu cyn 1 Ebrill 2012 gronni pensiwn mewn fersiwn o'r Cynllun Pensiwn Athrawon sy'n opsiwn gwahanol i'r cynllun yr oeddent wedi cronni eu pensiwn ynddo rhwng 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2022 (sef y cyfnod unioni a gynigwyd gan Lywodraeth San Steffan). Os bydd athrawon a gychwynnodd addysgu cyn 1 Ebrill 2012 yn ymddeol ar ôl 1 Ebrill 2015, bydd yr hawl ganddynt i gronni eu cyfnodau o wasanaeth ar ôl 2015 mewn cynllun pensiwn sy'n opsiwn gwahanol i'r cynllun yr oeddent wedi cronni eu pensiwn ynddo'n wreiddiol.

Bydd hyn yn rhoi'r hawl i rai athrawon sydd wedi cronni cyfnodau o wasanaeth ar ôl 2015, gan gynnwys rhai athrawon sy'n dod yn agos at ymddeol erbyn hyn, gronni pensiwn mewn cynllun sy'n fwy buddiol iddynt. Bydd hyn yn benodol berthnasol i'r athrawon hynny a ymddeolodd rhwng 55 a 60 oed ac sydd wedi cronni cyfnodau o wasanaeth yn y cynllun cyfartaledd gyrfaol ar ôl 2015, ond nid hwn fyddai'r unig ffactor i benderfynu pa mor fuddiol yw'r cynllun iddynt.

Dyma'r prif faterion sy'n bwysig ar hyn o bryd i aelodau o NASUWT sy'n dod yn agos at ymddeol:

- **Ar hyn o bryd, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth mewn ymateb i gynigion Llywodraeth San Steffan**

Mae NASUWT yn annog ei aelodau i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan ar yr ateb i achos McCloud a gynigwyd ganddi, ond, heblaw am hynny, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd Trysorlys ei Mawrhydi'n ymateb i'r ymgynghoriad tua diwedd 2020 neu'n hwyr yn 2021 a bydd yn cadarnhau'r dull unioni bryd hynny. Bydd y dull unioni'n cael ei weithredu ar ôl i'r cyfnod unioni ddod i ben, sef yn ystod blwyddyn 2023 ar y cynharaf mae'n debyg.

Mae'n debygol y bydd y dull unioni'n cael ei weithredu i ddechrau ar gyfer aelodau unigol sydd wedi ymddeol, oherwydd byddent hwythau wedi cymryd eu pensiynau'n barod. Os bydd athrawon yn dewis yr opsiwn sy'n fwyaf buddiol iddynt, dylent naill ai weld dim newid i'r pensiwn a delir iddynt, neu byddent yn derbyn pensiwn uwch ynghyd â thaliad pensiwn wedi'i ôl-ddyddio.

- **Nid oes angen i athrawon ohirio cymryd eu pensiynau hyd 2022 er mwyn gallu manteisio ar yr ateb i achos McCloud**

Ni fydd angen i athrawon aros mewn gwasanaeth pensiynadwy hyd at 2022 er mwyn gallu manteisio ar yr ateb i achos McCloud. Bydd y dull unioni'n berthnasol i bob cyfnod o wasanaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, pryd bynnag y mae'r gwasanaeth pensiynadwy hwnnw'n dod i bwn.

- **Ar hyn o bryd, nid oes angen i chi geisio cyngor gan Teachers' Pensions neu gan gynghorydd ariannol annibynnol ynglŷn â'r ateb i achos McCloud**

Nid oes angen i chi geisio cyngor ar hyn o bryd am effaith y dull unioni ar eich pensiwn unigol. Wedi i'r dull unioni gael ei gadarnhau gan Drysorlys ei Mawrhydi, bydd Teachers' Pensions yn cysylltu â phob aelod o'r Cynllun Pensiwn Athrawon sydd wedi ymddeol ac sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad hwn ac yn rhoi gwybodaeth ysgrifenedig iddynt am y dewis sydd ar gael iddynt, ochr yn ochr â'r goblygiadau sy'n deillio o hynny. Bryd hynny, bydd aelodau sydd wedi ymddeol mewn sefyllfa i gymryd cyngor ariannol annibynnol am yr opsiwn o ddewis cynllun pensiwn sydd ar gael iddynt, os byddent yn dymuno gwneud hynny.

Mae NASUWT yn cyfarfod â Thrysorlys ei Mawrhydi, Adran Addysg Llywodraeth y DU a Teachers' Pensions yn rheolaidd i drafod gweithrediad yr ateb i achos McCloud. Mae'r trafodaethau hyn yn cynnwys sut y dylid mynd ati i gysylltu ag aelodau sydd wedi ymddeol gyda gwybodaeth am yr opsiynau a gynigir iddynt gan yr ateb i achos McCloud, a'r wybodaeth y byddent yn ei derbyn. Unwaith y bydd yr ateb i achos McCloud yn hysbys, ac y mae Llywodraeth San Steffan yn egluro'n well sut y bydd yn cael ei weithredu, bydd yr Undeb yn rhoi gwybodaeth am hyn i'w aelodau. Yn benodol, bydd NASUWT yn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r rheiny o'i aelodau sy'n dod yn agos at ymddeol ac i aelodau sydd wedi ymddeol ac sydd wedi cronni cyfnodau o wasanaeth ar ôl 2015.

Nodwch, er bod NASUWT yn gallu cynghori ei aelodau am y ffordd y bydd yr ateb i achos McCloud yn cael ei weithredu unwaith y bydd ei fersiwn terfynol yn hysbys, ni all yr Undeb roi cyngor ariannol neu gyngor pensiwn ar sail unigol. Dylai aelodau gysylltu â Teachers' Pensions a gweinyddwr y Cynllun Pensiwn Athrawon i ofyn am wybodaeth am eu pensiynau, a dylent geisio cyngor ariannol annibynnol os ydynt angen cyngor ariannol neu gyngor pensiwn.

### Gwybodaeth bwysig i aelodau sy'n dod yn agos at ymddeol ac sy'n destun trefniadau diogelu sy'n lleihau'n raddol

Os ydych yn destun trefniadau diogelu sy'n lleihau'n raddol ac os ydych yn dod yn agos at ymddeol, dylech ddarllen cyngor NASUWT am yr effaith bosibl y gallai'r atebion arfaethedig i achos McCloud ei chael ar gyfer aelodau sy'n destun trefniadau diogelu sy'n lleihau'n raddol. Dylech ystyried ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth San Steffan, a dylech ddarllen y cyngor am y mater hwn sydd ar gael yn yr adran 'bwletinau pensiwn' ar y dudalen ganlynol gan NASUWT: https://www.nasuwt.org.uk/advice/pay-pensions/pensions/wales.html.

### Gwybodaeth bwysig am ymddeol ar sail salwch

Os bydd yr ateb i achos McCloud yn effeithio arnoch, ac os gwnaethoch chi gais aflwyddiannus i ymddeol ar sail salwch am nad oeddech yn gallu dangos analluogrwydd ar sail feddygol hyd at yr oedran pensiwn uwch yn y cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfaol, ond y byddech wedi gallu dangos analluogrwydd ar sail feddygol hyd at yr oedran pensiwn is yn y cynllun cyflog terfynol, cysylltwch â'ch gweithiwr achos NASUWT i drafod goblygiadau achos McCloud ar eich achos. Os nad oes gennych weithiwr achos NASUWT, anfonwch e-bost at rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk i ofyn am gymorth ynghylch eich achos.

### Gwybodaeth bwysig i athrawon a ddewisodd dynnu allan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon

Os bydd yr ateb i achos McCloud yn effeithio arnoch, ac os dewisoch dynnu allan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon am eich bod wedi cael eich trosglwyddo o fersiwn 'cyflog terfynol' y Cynllun Pensiwn Athrawon i fersiwn 'cyfartaledd gyrfaol' y Cynllun Pensiwn Athrawon, anfonwch e-bost at rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk i drafod eich achos.

### Cofnod o wasanaeth pensiynadwy sy'n anghywir

Os yw eich cofnod o wasanaeth pensiynadwy a gedwir gan Teachers' Pensions yn anghywir, cysylltwch â nhw i ofyn am gael cywiro eich cofnod o wasanaeth. Dylech roi manylion llawn bob cyfnod o wasanaeth a gollwyd i Teachers' Pensions, a dylech gadw slipiau cyflog yn ddiogel sy'n profi bod cyfraniadau pensiwn wedi'u tynnu o'ch cyflog ar gyfer y cyfnod o wasanaeth a gollwyd.

Y ffordd orau o gysylltu â Teachers' Pensions yw drwy'r porth ar-lein 'My Pension Online' ar wefan Teachers' Pensions, sydd ar gael ar: https://www.teacherspensions.co.uk/members/member-login.aspx.

Ni ddylech ohirio gwneud cais am eich pensiwn dim ond oherwydd y ffaith fod eich cofnod o wasanaeth yn anghywir, oherwydd bydd eich pensiwn yn cael ei addasu a byddwch yn derbyn unrhyw ôl-daliad y mae gennych yr hawl iddo pan fydd eich cofnod o wasanaeth yn cael ei gywiro yn y pen draw.

Os na fydd Teachers' Pensions yn cywiro eich cofnod o wasanaeth os gofynnir am hynny, anfonwch e-bost at rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk i ofyn am gymorth gan NASUWT.